
Llwybr Datblygu'r Gymraeg
2021-22



Bethan Griffiths
bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Darlith 3
Dydd Iau 21ain o Hydref 2021

Nod ac amcanion:

Canolbwyntio ar ddatblygu cywirdeb ar lafar.

- Trosolwg o ofynion y fframwaith a'r portffolio eleni.
- Cyflwyniad Llafar y Dystysgrif Sgiliau Iaith
- Cwestiynu'n effeithiol a rhoi gorchmynion yn gywir yn y dosbarth.
- Sut i ddatblygu sgiliau llafaredd y dysgwyr?



Fframwaith Cymwyseddau Iaith

1. Edrychwch ar ddisgrifiadau lefel Canolradd, Uwch ac Hyfedredd.
2. Penderfynwch pa rai rydych chi'n meddwl sydd fwyaf addas i chi.
3. Meddyliwch, sut gallwch chi brofi eich sgiliau.
4. Pa dystiolaeth allwch chi gyflwyno fydd yn profi eich sgiliau?

Dyma rai enghreifftiau….
*Enghreifftiau yn unig. Mae croeso i chi gyflwyno tystiolaeth wahanol os ydych chi'n meddwl ei fod yn addas ac yn profi eich sgiliau.
**Peidiwch â chymharu'r math o dystiolaeth byddwch chi'n cyflwyno gyda chyd-fyfyrwyr sydd ar lefel wahanol i chi. Bydd y math o dystiolaeth sy'n profi gwahanol lefelau o ruglder yn amrywio yn fawr.

Canllaw ar Ofynion Y Fframwaith 2021-22

- Dyma enghreifftiau o'r mathau o bethau gallwch chi eu cynnwys fel tystiolaeth i enghreifftio eich lefel ar bob sgil. Does dim disgwyl i chi gynnwys pob un o'r rhain – gweler y Cyngor Doeth ar waelod y dudalen gynnwys am fwy o fanylion.

	Cyn-fynediad	Mynediad **A1**	Sylfaen **A2**	Canolradd **B1**	Uwch **B2**	Hyfedredd **C1**
Llafar	Recordiad yn dweud cyfarchion syml ar ddechrau gwers e.e. Bore da. Recordiad yn dweud rhai geiriau cyfarwydd.	Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun syml i'r plant ac yn holi cwestiynau. Recordio meicro-wers fer. Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau syml, neu'n cael sgwrs fer.	Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau i holi cwestiynau. Recordio meicro-wers. Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau, neu'n cael sgwrs.	Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant ac yn cynnal trafodaeth syml gyda'r plant. Recordio meicro-wers. Trafodaeth grŵp am bwnc addas.	Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd. Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn. Ffug gyfweliad Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI	Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn. Ffug gyfweliad Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI.
Darllen	Recordiad yn darllen darn neu lyfr syml iawn – brawddeg neu ddwy.	Recordiad yn darllen sgwrs ar ôl sawl gwrandawiad. Recordiad yn darllen llyfr i'r plant neu'n darllen cyfarwyddiadau i'r plant.	Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawiad. Recordiad yn darllen llyfr i'r plant a thrafod y testun. Tasg ddarllen a deall	Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawiad. Recordiad yn darllen llyfr i'r plant ac yn trafod y testun neu'n mynegi barn arno.	Aseiniad academaidd â ffynonellau (mwy nag un yn unig) Cymraeg. Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn trafod y testun yn drylwyr mewn	Aseiniad academaidd ag **amrywiaeth** o ffynonellau Cymraeg Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn dadansoddi'r testun yn estynedig
		Tasg ddarllen a deall. Ymarferion cyfieithu.	Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Sylfaen ar wefan CBAC* Ymarferion cyfieithu.	Tasg ddarllen a deall. Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Canolradd ar wefan CBAC*	grŵp e.e Clwb Darllen, neu'n trafod y cymeriad/au	mewn grŵp e.e Clwb Darllen.

Rydym yn bwriadu rhoi cyfle i chi recordio trafodaeth mewn grwpiau yn un o'r darlithoedd.

Ysgrifennu	Ateb cwestiynau syml – un gair neu un frawddeg. Ambell frawddeg syml wedi eu hysgrifennu ar adnoddau. Adnoddau geirfa syml e.e cardiau fflach.	Adnoddau addysgol – Mat iaith/poster. Creu rhestr o gwestiynau i ofyn i'r plant mewn cynllun gwers. Ysgrifennu sgript syml. Sgrinluniau o'r cwestiynau yn y Forms lle mae gofyn i chi ysgrifennu /trefnu brawddegau syml yn gywir.	Creu adnoddau – Mat iaith/poster. Creu rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r plant neu'r patrymau byddwch chi'n eu defnyddio mewn cynllun gwers. Ysgrifennu hunanbortread. Sgrinluniau o'r cwestiynau yn y Forms lle mae gofyn I chi ysgrifennu /trefnu brawddegau syml yn gywir.	Creu adnoddau – Mat iaith /poster/ Quizlet Creu rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r plant neu'r patrymau byddwch chi'n eu defnyddio mewn cynllun gwers. Ysgrifennu cynllun gwers drwy gyfrwng y Gymraeg.	Aseiniad academaidd Datganiad personol - cais am swydd Llythyr ffurfiol e.e. at rieni. Adroddiadau ar waith disgyblion.	Aseiniad academaidd Datganiad personol - cais am swydd Llythyr ffurfiol e.e. at rieni. Adroddiadau ar waith disgyblion.
Gwrando	Recordiad o atebion i gwestiynau syml e.e Pwy wyt ti?	Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrando Recordiad ohonoch chi'n gwneud yr ymarferion gwrando e.e. gwrando ar sgwrs yna ateb cwestiynau /llenwi bylchau. Recordiad ohonoch chi'n ymateb i gwestiynau syml gan ddysgwyr yn y dosbarth e.e. meicro wers lle rydych chi'n ymateb i'r plant.	Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrando Recordiad ohonoch chi'n gwneud yr ymarferion gwrando e.e. gwrando ar sgwrs yna ateb cwestiynau /llenwi bylchau. Recordiad ohonoch chi'n ymateb i gwestiynau syml gan ddysgwyr yn y dosbarth e.e. meicro wers lle rydych chi'n ymateb i'r plant.	Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrando Gwrando ar sgwrs yn y Gymraeg a chyfieithu'r cynnwys Recordio sgwrs "naturiol"- holi ac ateb ei gilydd.	Trafodaeth grŵp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd Recordiad o wers - dangos ymateb i'r disgyblion (ar y lefel hon, nid yw'n ddigon o dystiolaeth ar ei ben ei hun) Cyflwyiad TSI - y cwestiynau ar y diwedd	Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd Recordiad o wers - dangos ymateb i'r disgyblion (ar y lefel hon, nid yw'n ddigon o dystiolaeth ar ei ben ei hun) Cyflwyniad TSI – y cwestiynau ar y diwedd


Addysgu a Dysgu

Methodoleg	Ffilm o wers neu rannau o wersi gwahanol yn dangos gwahanol ddulliau addysgu. Cynlluniau Gwersi – gyda'r rhannau perthnasol wedi eu hwucholeuo. Gweithgaredd grŵp neu feicro wers gyda chyfoedion, wedi ei recordio yn dangos un dull e.e drilio Aseiniad academiadd/hunadfyfyriol sy'n trafod eich defnydd o'r gwahanol ddulliau. Nodiadau mentor ar wersi sy'n eich canmol am eich defnydd o ddulliau gwahanol i gyflwyno iaith.

Hynny yw, sut rydych chi'n datblygu llythrennedd Cymraeg y dysgwyr. Ydych chi'n defnyddio amrywiaeth o strategaethauByddwn ni'n edrych ar fethodolegau cyflwyno iaith yn ystod y darlithoedd.

Dylech chi gael cefnogaeth wrth eich mentoriaid yn yr ysgolion wrth i chi gynllunio gwersi sy'n datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr.

Cyflwyno



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Institute of Education Addysg i Gymru Education for Wales

Rhagoriaith Canolfan Gwasanaethau Cymraeg

Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon

Rhif Myfyriwr: _____

Rhaglen *(ticiwch y blwch perthnasol):* TAR Cynradd | TAR Uwchradd | BA Addysg

	Math o dystiolaeth	Rhesymau dros gyflwyno'r dystiolaeth
SIARAD		
GWRANDO		
DARLLEN		
YSGRIFENNU		
Addysgu a Dysgu		

Cyngor doeth wrth baratoi'r portffolio

- Tystiolaeth BERTHNASOL – rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i'r disgrifiadau lefel.
- DIGON o dystiolaeth o'r 4 sgil a'ch gallu o ran y dulliau addysgu a dysgu, ond peidiwch gorlwytho. Ni ddylech gyflwyno mwy na 5 adnodd ar gyfer unrhyw sgil. Meddyliwch PAM rydych chi'n cyflwyno pob darn.
- Gwrando – os ydych yn cyflwyno tasgau gwrando fel tystiolaeth, rhaid i chi gynnwys y ffeil sain yn ogystal â'ch atebion i'r cwestiynau, neu fydd y dystiolaeth ddim yn profi eich gallu gwrando chi.
- Ysgrifennu – cynnwys aseiniad sy'n dangos eich gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg a'ch gallu i gyrraedd lefelau uchaf y sgil darllen.
- Addysgu a Dysgu: Ar y lefelau uchaf rhaid i chi ddangos 'amrediad o arddulliau' – dewiswch eich tystiolaeth yn ofalus!
- Os ydych chi'n cyflwyno darn o dystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer sawl sgil, nodwch hynny yn y tabl uchod. Dim ond unwaith fydd angen i chi lwytho'r ffeil i'r PDP.
- Dangoswch eich hun ar eich gorau yn y portffolio – dewiswch eich tystiolaeth yn ddoeth!

Rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen hon fydd yn rhestru yr holl dystiolaeth rydych chi'n ei gyflwyno.

Cyflwyno ar y PDP. Cewch chi ganllawiau manwl yn nhymor y Gwanwyn.

Bydd angen esboniad byr iawn i gyfiawnhau **pam** bod y dystiolaeth yn addas ar gyfer y sgil.

Does dim problem os oes un darn o dystiolaeth yn profi sawl sgil wahanol. e.e Siarad, gwrando ac AD.

Darllenwch y 'cyngor doeth' wrth baratoi'r portffolio.

Eich portffolio

Mae'n bosib byddwch chi ar lefelau gwahanol ar gyfer sgiliau gwahanol.

Er enghraifft:

Siarad: B2

Darllen: B1

Ysgrifennu: B1

Gwrando: B2

Siarad: C1

Darllen: C1

Ysgrifennu: B2

Gwrando: C1

Cofiwch

- Does dim modd pasio / methu y Fframwaith. Nid arholiad, aseiniad na phrawf yw'r portffolio.

- Disgwylir i bob myfyriwr sy'n graddio gyda SAC gael lefelau'r Fframwaith ar eu PDP ar ddechrau eu gyrfa.

- Ni ddylai casglu tystiolaeth fod yn llawer o waith ychwanegol i chi. Dylai fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwch ffolder ar y One Drive i gasglu tystiolaeth drwy'r flwyddyn.

Fframwaith Cymhwyseddau Iaith Gymraeg

C1 - HYFEDREDD		
GWRANDO	Gallu deall ac ymateb i bopeth sy'n cael ei glywed gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr	• Rhyngweithio'n estynedig, yn hyderus ac yn naturiol gyda dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth gadarn wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd. • Gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, ac ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben.
LLAFAR	Gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf. Yn gallu hunangywiro lle bo angen.	• Defnyddio cyfoeth o adnoddau iaith Gymraeg yn naturiol, hyderus a chywir gan fwyaf ar draws y cwricwlwm, gyda'r gallu i ehangu trafodaeth, arddangos gwybodaeth o gywair, cyfleu safbwynt, disgrifio'n fedrus, cymharu, defnyddio geirfa eang gydag ystod o briod-ddulliau • Cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. mynegiant, tôn y llais. • Defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir, ynghyd â defnydd cywir o dermau cenedl enwau ac arddodiaid gyda'r gallu i hunangywiro a chywiro eraill ar lafar yn ôl yr angen.
DARLLEN	Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.	• Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol. • Defnyddio unrhyw nodiadau'n effeithiol iawn er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Yn gallu hunangywiro lle bo angen gan ddangos defnydd cywir o arfau iaith cyfrifiadurol.	• Ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan addasu'r arddull a'r ffurf yn hyderus ar gyfer y darllenydd neu'r gynulleidfa. • Ysgrifennu'n fedrus a chywir tra'n arddangos gwybodaeth dda iawn o reolau gramadeg, atalnodi gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol i wirio gwaith personol ac eraill.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Tystysgrif Sgiliau Iaith

2021 – 2022



**** Neges atgoffa:



Rhaid cofrestru cyn y 1af o Dachwedd

Ni fydd modd ychwanegu neb i'r gofrestr wedi'r dyddiad hynny.

https://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/tystysgrifsgiliau/cofrestru/

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Yr Asesu

Y Cyflwyniad Llafar
(Ar Teams)
50%
Chwefror 2022
(Wythnos Hanner Tymor)

Asesiad Ysgrifenedig
(Ar y campws)
50%
4ydd Fai 2022

Y Cyflwyniad Llafar

1. Y CYFLWYNIAD LLAFAR

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gwblhau eu cyflwyniadau llafar rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth. Rhaid i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad llafar a fydd yn para 7-8 munud yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth. Dylai'r cyflwyniad fod yn addas i gynulleidfa o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes hwnnw; hynny yw, dylid sicrhau bod y cyflwyniad yn ddealladwy i rywun sy'n anghyfarwydd â'r pwnc dan sylw.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd 7-8 munud i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau gan yr arholwr. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododd yn ystod y cyflwyniad.



Meini Prawf – Cyflwyniad Llafar

Dull cyflwyno	20
Ystod cystrawennau a geirfa	20
Cynnwys a threfn y cyflwyniad	20
Ymateb i gwestiynau	20
Cywirdeb	10
Deunydd gweledol	10
Cyfanswm:	100

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Adnoddau ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol





Cymorth Defnyddiol

https://sway.office.com/PDHDkjjntB12CtUF?loc=swsp

Dewiswch destun addas.



Dewiswch destun sydd o ddiddordeb i chi. Bydd paratoi ac ymchwilio'n fwy pleserus os oes diddordeb gennych yn y pwnc. Peidiwch â dewis testun nad ydych yn ei ddeall yn iawn neu destun nad ydych chi'n gwybod digon amdano.

Cofiwch y bydd yr arholwr yn eich holi ar ddiwedd y cyflwyniad. Gwnewch yn siwr fod digon o wybodaeth gennych i ateb y cwestiynau hyn yn llawn. Bydd testun addas yn rhoi cyfle i chi:

- ymchwilio i bwnc
- dweud rhywbeth diddorol a fydd yn cadw sylw'r gynulleidfa
- paratoi delweddau deniadol a diddorol, e.e. pwerbwynt, eitem ar fwrdd gwyn a fydd yn help i'r gynulleidfa ddeall a chofio'ch pwyntiau.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG



CYNGOR YMARFEROL



- Dewis lleoliad addas: goleuo da, cefndir yn daclus, ymgeisydd yn y canol
- Edrych ar y sgrin, amrywio'r llais
- Ymarfer o flaen llaw gyda ffrind neu aelod o'r teulu.
- Rhoi rhybudd i eraill sy'n y tŷ eich bod chi'n cyflwyno.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Gwyliwch fideo Cyngor Call

https://sway.office.com/PDHDkjjntB12CtUF?loc=swsp

Cyn dechrau cofiwch ddweud eich
Enw llawn
Dyddiad Geni
Rhif Aelodaeth Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol




Cofiwch bydd modd i chi ddefnyddio eich asesiad llafar ar gyfer y Dystysgrif Sgiliau Iaith fel tystiolaeth lafar yn eich portffolio hefyd os ydych chi'n dymuno.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Sgiliau llafar yn y dosbarth

yr athro



y dysgwyr

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Fframwaith Cymhwyseddau Iaith Gymraeg

C1 - HYFEDREDD		
GWRANDO	Gallu deall ac ymateb i bopeth sy'n cael ei glywed gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr	• Rhyngweithio'n estynedig, yn hyderus ac yn naturiol gyda dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth gadarn wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd. • Gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, ac ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben.
LLAFAR	Gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf. Yn gallu hunangywiro lle bo angen.	• Defnyddio cyfoeth o adnoddau iaith Gymraeg yn naturiol, hyderus a chywir gan fwyaf ar draws y cwricwlwm, gyda'r gallu i ehangu trafodaeth, arddangos gwybodaeth o gywair, cyfleu safbwynt, disgrifio'n fedrus, cymharu, defnyddio geirfa eang gydag ystod o briod-ddulliau • Cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. mynegiant, tôn y llais. • Defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir, ynghyd â defnydd cywir o dermau cenedl enwau ac arddodiaid gyda'r gallu i hunangywiro a chywiro eraill ar lafar yn ôl yr angen.
DARLLEN	Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.	• Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol. • Defnyddio unrhyw nodiadau'n effeithiol iawn er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Yn gallu hunangywiro lle bo angen gan ddangos defnydd cywir o arfau iaith cyfrifiadurol.	• Ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan addasu'r arddull a'r ffurf yn hyderus ar gyfer y darllenydd neu'r gynulleidfa. • Ysgrifennu'n fedrus a chywir tra'n arddangos gwybodaeth dda iawn o reolau gramadeg, atalnodi gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol i wirio gwaith personol ac eraill.

Addysgu a Dysgu

Defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu, wrth gynllunio ac addysgu, er mwyn datblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y dysgwyr ar y lefel briodol.


AD1	Mae gen i ymwybyddiaeth gyfyngedig o strategaethau addysgu a dysgu iaith.	• Defnydd cyfyngedig o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth gyfyngedig o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd cyfyngedig o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu cyfyngedig i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Diffyg gallu i ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD2	Mae gen i ddealltwriaeth o strategaethau addysgu a dysgu iaith. Rwy'n dechrau cymhwyso strategaethau addysgu a dysgu iaith.	• Defnydd **boddhaol** o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **foddhaol** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **boddhaol** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **boddhaol** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • **Yn anfoddhaol** wrth ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD3	Mae gen i ddealltwriaeth gadarn o strategaethau addysgu a dysgu iaith. Rwy'n gallu cymhwyso rhai strategaethau yn effeithiol.	• Defnydd **effeithiol** o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **dda** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **da** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **da** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Gallu ymateb yn **foddhaol** i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD4	Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu yn effeithiol. Yn ymchwilio a chymhwyso'r datblygiadau diweddaraf ym maes caffael iaith.	• Defnydd **effeithiol** o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **gadarn** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **da iawn** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **da iawn** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Gallu ymateb yn **dda iawn** i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD5	Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu blaengar yn hyderus a hyfedr. Yn gallu arwain a chefnogi ymarferwyr eraill yn y maes.	• Defnydd **cyson ac effeithiol** o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **hynod o gadarn** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **effeithiol iawn** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **rhagorol** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Gallu ymateb yn **rhagorol** i gamsyniadau'r dysgwyr.



Cwestiynu effeithiol

Sut mae cwestiynu yn effeithiol yn y dosbarth ?

Pyramid cwestiynu
Bloom's Taxonomy
Yn y 1950au cyhoeddodd Benjamin Bloom ei dacsonomeg o gwestiynau addysgol.



Gallwch ddefnyddio Bloom's Taxonomy i bennu pa fath o gwestiwn i'w ddatblygu, yn ogystal â sut i'w eirio. Yn y system ddosbarthu hon, mae'r lefel lleiaf cymhleth, adalw gwybodaeth, yn preswylio ar waelod y pyramid fel sylfaen gwybodaeth. Ar y brig, mae gwerthusiad, synthesis, a dadansoddiad angen y meddwl mwyaf cymhleth a haniaethol. Mae trafodaethau, ynghyd ag aseiniadau creadigol a gwaith grŵp, ar gyfer meddwl uwch.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Copyright ©2017
@ImpactWales

QUESTIONING for PROGRESS

QUESTIONS SHOULD....

- ★ Be planned
- ★ Be purposeful
- ★ Be spaced for thinking time
- ★ Move from closed to open


"The art and science of asking questions, is the source of all knowledge."
Thomas Berger

POSE

PAUSE

POUNCE

BOUNCE




QUESTION HIERARCHY - Bloom's Taxonomy

How would you improve...? How would you find out...? What is an alternative to...?	Creating
What are the strengths of...? What is the most important...? What do you think about...?	Evaluating
What caused....? Why did....? How many ways can...?	Analysing
How would you use....? Where else would you see...? How would you solve...?	Applying
Explain why....? How does.....? Who do you think....?	Understanding
What is....? How many....? Can you list....?	Remembering

Don't ask more than 1 question at a time, give pupils time to think

Defnyddio Cwestiynau



Mae dau brif fath o gwestiwn …

cwestiwn caeëdig

dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib

cwestiwn agored


amrywiaeth o atebion posib

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Cwestiynau ac Atebion

Yn Saesneg, mae'n hawdd ateb cwestiwn.



Ond yn Gymraeg, mae **sawl ffordd wahanol** o ateb cwestiynau!

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Cwestiynau Caeëdig …

Er mai dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib i gwestiwn caeëdig, mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn Gymraeg ….

Oes

Nac oes

Ydy

Nac ydy

Oedd

Nac oedd

Do

Naddo

Baswn

Na faswn

Ie

Nage

Cei

Na chei

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Bydd cliw yn y cwestiwn fel arfer!

Oes car gennyt ti? Oes / Nac oes

Ydy e'n mynd heno? Ydy / Nac Ydy

Oeddet ti'n disgwyl ennill? Oeddwn / Nac oeddwn

Fyddi di'n gorffen am 3? Byddaf / Na fyddaf

Est ti i'r llyfrgell ddoe? Do / Naddo

I'r llyfrgell est ti ddoe? Ie / Nage



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Ffurfio cwestiwn caeëdig – oes neu ydy?



Oes > ffurfiau amhendant

Is there a…? Are there any…?

Oes llyfr ar y bwrdd? Oes pensiliau yn y bocs?

Ydy (ydy'r) > ffurfiau pendant

Is (the)…? Are (the) …?

Ydy John yn absennol? Ydy'r llyfr ar y bwrdd?

ATEBION – **Oes / Nac oes** neu **Ydy / Nac ydy**



SAWL

FAINT

Beth ydy'r rheol??

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG



Defnyddio gydag enw unigol yn unig.

Sawl disgybl sydd yn y dosbarth?
Sawl cwestiwn sydd yn y prawf?

Sawl llyfrau sydd yn y pentwr? X



Defnyddio gydag enwau lluosog ar ôl yr arddodiad “o”.

Faint o **b**ysgod sydd yn y môr?
Faint o **b**obl sy’n byw yn Abertawe?

Faint o **g**adair sy’n y dosbarth? X

Cwestiynau Agored

Bydd cwestiynau agored yn caniatáu amrywiaeth o atebion. Byddan nhw'n cychwyn gyda'r geiriau gofynnol hyn …



ti / chi

Cofiwch ofyn cwestiwn lluosog i grwp o blant a chwestiwn unigol i unigolion.

Fwynheu**och chi**, bawb?

Fwynheu**aist ti**, Sara?

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Sylwch ar y Treigladau !

Gwyliwch y treigladau wrth gwestiynu ar lafar yn y dosbarth.

RHAGENW GOFYNNOL	TREIGLAD	ENGHRAIFFT
SUT+ BERF	DIM	SUT **t**aloch chi am y llyfrau?
SUT + ENW	MEDDAL	SUT **g**ar ydy o?
PRYD + BERF	DIM	PRYD **b**yddwch yn mynd?
BLE + BERF	DIM	BLE **b**uoch chi?
BETH + BERF	MEDDAL	BETH **dd**ywedodd y rhiant?
PWY + BERF	MEDDAL	PWY **f**ydd yno?
PA + ENW	MEDDAL	PA **dd**isgyblion?
PA + ENW+ BERF	MEDDAL	PA **l**yfrau ddarllenaist ti?
P'UN + BERF	MEDDAL	P'UN **b**rynoch chi?
FAINT + BERF	MEDDAL	FAINT **d**alon nhw?
PRYD + BERF	DIM	PRYD **c**yrhaeddon nhw?
PAM	DIM	PAM dest ti i'r ysgol?

Cwestiynau yn y gorffennol

Os ydy cwestiwn yn defnyddio ffurf gorffennol y ferf, yna **‘do’** a **‘naddo’** fydd yr atebion.

Er enghraifft:

Wnest ti dy waith cartref neithiwr? Do. / Naddo.

Orffennodd Siân ei chinio? Do. / Naddo.

Ddarllenodd e nofel neithiwr? Do. / Naddo.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

- Os ydych am fod yn fwy ffurfiol, rhaid defnyddio'r geiryn gofynnol 'a'

- A ddarllenodd e'r llyfr?
- A welodd e'r rhaglen?
- A dderbyniodd hi'r sefyllfa?
- Do/Naddo

- Mae'r treiglad yn aros!

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Cwestiynu

Rhaid i ni dreiglo **berfau sydd ar ddechrau** cwestiwn.

Bydd P, T, C, B, D, G, Ll, M, Rh yn treiglo'n feddal.

Er enghraifft:

Bwytodd e'r bwyd? > Fwytodd e'r bwyd? / A fwytodd e'r bwyd?

Gweli di'r ferch? > **W**eli di'r ferch? / A weli di'r ferch?

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Cwestiynau pwysleisiol

Os ydy cwestiwn yn cael ei ofyn mewn ffordd bwysleisiol, hynny yw, trwy roi'r pwyslais ar ddechrau'r cwestiwn, yna 'ie' a 'nage' fydd yr atebion.

Er enghraifft:

Mared oedd yn fuddugol? Ie / Nage.

I Gaerdydd est ti i siopa? Ie / Nage.

Frozen oedd hoff ffilm y plant? Ie / Nage.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Arddodiaid - Dyma'r atebion. Beth ydy'r cwestiynau?

Rydw i'n mynd i'r gegin.	Ble?
Ces i'r **afal** o'r *siop*.	Ble?
Mae'r llyfr ar y *silff gwyn*.	Pa?
Rydw i'n dod o *Lanelli*.	Ble?
Rydw i'n edrych ar y teledu.	Beth?
Rhoiais i'r daflen i Sera.	Pwy?

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

I ble rwyt ti'n mynd?	Rydw i'n mynd i'r gegin.
O ble cest ti'r afal?	Ces i'r ***afal*** o'r siop.
Ar ba silff mae'r llyfr?	Mae'r llyfr ar y *silff gwyn*.
O ble dych chi'n dod?	Rydw i'n dod o *Lanelli*.
Ar beth rwyt ti'n edrych?	Rydw i'n edrych ar y teledu.
I bwy roiaist ti'r daflen?	Rhoiais i'r daflen i Rhodri.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Ymateb llafar estynedig



Mae **‘Pam ..?’** yn annog patrymau megis:
‘….. am ei fod …..’
‘….. oherwydd …..’
‘….. achos …..’

Yn yr un modd mae **Sut?** yn gwestiwn defnyddiol ar gyfer atebion estynedig.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Tasg

Ydych Chi'n Cofio?

Mae deg gwall yn y sgwrs sy'n dilyn.

Lowri	Wyt ti eisiau mynd i'r disgo yn y dref nos yfory?
Jayne	Ie, syniad da.
Lowri	Pa dillad wyt ti'n gwisgo?
Jayne	Dw i ddim wedi penderfynu eto. Pwy sy'r band fydd yn y disgo?
Lowri	Yr Adar Glas. Mae'r bechgyn yn fy nosbarth i.
Jayne	Dw i ddim wedi clywed amdanyn nhw. Sawl bechgyn sy yn y band?
Lowri	Pedwar. Tri offerynnwr ac un canwr, rwy'n meddwl.
Jayne	Wyt ti wedi gweld y grŵp o'r blaen?
Lowri	Ydy. Roedden nhw yn nisgo'r Coleg y mis diwetha.
Jayne	Pwy caneuon chwaraeon nhw?
Lowri	Dw i ddim yn cofio – doeddwn i ddim wedi eu clywed o'r blaen.
Jayne	Pwy talodd am y tocyn i ti fynd i ddisgo'r Coleg?
Lowri	Mam. Ces i'r tocyn fel anrheg pen-blwydd. Pryd ydy dy ben-blwydd di?
Jayne	Mis Awst.
Lowri	Beth ddyddiad?
Jayne	Awst tri deg un.
Lowri	Diwrnod olaf y mis?
Jayne	Ydy.



Allan o 'Seren Iaith'

Gorchmynion

Beth ydy gorchmynion?

Pryd byddwn ni'n eu defnyddio nhw?

Beth sy'n rhaid i ni gofio?

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Gorchmynion cadarnhaol



Rydyn ni'n defnyddio'r gorchmynion unigol i siarad ag un plentyn a'r rhai lluosog pan rydyn ni'n siarad â grŵp.

Mae'r unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **-a** ar ddiwedd bonyn y ferf,

e.e. *Rheda!* *Cerdda!*

Fel arfer, mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **-wch** ar ddiwedd bonyn y ferf, e.e. *Rhedwch!* *Sgipiwch!*

Gorchmynion

Rheda'n gyflym.	Rhedwch yn gyflym.
Gwranda'n ofalus.	Gwrandewch yn ofalus.
Gwisga dy got.	Gwisgwch eich cotiau.
Sa'n llonydd. / Sefa'n llonydd.	Sefwch yn llonydd.



Rhaid cofio treiglo'n feddal yn syth ar ôl ffurf orchmynnol.

- Darllena lyfr!
- Siaradwch Gymraeg!
- Cofiwch wneud hyn!



Mynd, dod a gwneud

Dere i weithio ar y cyfrifiadur.	Dewch i weithio ar y cyfrifiadur.
Cer allan i'r iard/buarth.	Ewch allan i'r iard/buarth.
Cer i nôl dy fag.	Ewch i nôl eich bagiau.
Gwna res.	Gwnewch res.

PAID!



Gorchmynion negyddol

Mae'r gorchymyn unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **Paid â** o flaen y ferf ac mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **Peidiwch â** o flaen y ferf. Mae hyn yn achosi treiglad llaes, e.e.

Paid â cherdded! **Peidiwch â ph**oeni!

Dydyn ni ddim yn defnyddio'r treiglad hwn bob tro ar lafar.

Os oes llafariad yn dilyn 'â', byddwn yn defnyddio 'ag' yn lle. e.e

Paid ag agor y ffenest!

Peidiwch ag anghofio eich llyfrau!

PAID/ PEIDIWCH

Paid â chweryla.	Peidiwch â chweryla.
Paid â bod yn ddigywilydd.	Peidiwch â bod yn ddigywilydd.
Paid â cherdded yn y mwd.	Peidiwch â cherdded yn y mwd.
Paid â meiddio.	Peidiwch â meiddio.

Rhaid

- Rhaid i fi fynd
- Rhaid i ti wrando
- Rhaid iddo fe ddysgu
- Rhaid iddi hi gysgu
- Rhaid i ni fwyta
- Rhaid i chi ddarllen
- Rhaid iddyn nhw fwynhau
- *Rhaid i Nia a Huw gofio

i fi

i ti

iddo fe

iddi hi

i ni

i chi

iddyn nhw

i Tom

Cywirwch y gwallau

Cerddwch yn dawel Rhian.	Rhaid iddych chi wrando, blant.	Peidiwch â agor y ffenest yn y dosbarth.	Paid â taflu sbwriel Wil!
Ysgrifennwch dy enw ar y llyfr.	Sefyll yn dawel tu ôl cadeiriau.	Dewch i mewn Rhys.	Eisteddwch a bwyta yn dawel.

Llafaredd yn dosbarth – Cam cynnydd 1


LLythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm		Cam cynnydd 1	
Elfennau	**Agweddau**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
Datblygu a chyfleu gwybodaeth a syniadau	**Siarad**	• mynegi mwynhad neu ddiddordeb • trafod llun, modelau a gweithrediadau mewn termau syml • ail-adrodd digwyddiad neu brofiad mewn termau syml • siarad yn ddigon clir i gael eu deall gan oedolion a chyfoedion • dynwared bywyd go iawn a phrofiadau dychmygol o fewn gweithgaredd chwarae rôl • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau trwy hwiangerddi a chaneuon	• mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau • siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth • defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml • siarad yn glywadwy • cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, *e.e. dau gi, y gath*
	Gwrando	• gwrando ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol • gwrando ac ymuno â chaneuon, rhigymau a storïau • ailadrodd stori neu wybodaeth y maent wedi'i glywed mewn termau syml • gofyn cwestiwn priodol am rywbeth sydd wedi'i ddweud	• dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, *e.e. wrth dynnu llun* • ymuno wrth adrodd/canu rhigymau, caneuon a storïau, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth • gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd
	Cydweithio a thrafod	• cymryd rhan mewn trafodaeth gyda phlant a/neu oedolion • cymryd rhan gydag eraill mewn gweithgareddau.	• cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, *e.e. gyda ffrindiau* • cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio.

Llafaredd yn dosbarth – Cam Cynnydd 2

LLythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm		Cam cynnydd 2		
Elfennau	**Agweddau**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	**Siarad**	• mynegi barn ar bynciau cyfarwydd • siarad am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan esbonio'r broses • cynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol i ymhelaethu ar eu syniadau neu eu hadroddiadau • siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i wrandawyr sydd y tu hwnt i'w grŵp cyfeillion • mabwysiadu rôl gan ddefnyddio iaith briodol • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, *e.e. y ferch*	• mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau • ymestyn eu syniadau neu eu hadroddiadau gan drefnu'r hyn y maent yn ei ddweud a chynnwys manylion perthnasol • siarad yn eglur ag ystod o gynulleidfaoedd • mabwysiadu rôl benodol, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig • defnyddio ambell dreiglad y maent wedi ei ymarfer ar lafar, *e.e. y bêl, fy mag, i'r dref*	• esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol • trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, *e.e. pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn* • siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr • defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, *e.e. yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio ti/chi)* • cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl • defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, *e.e. ar ben*
	Gwrando	• gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, *e.e. dilyn cyfarwyddiadau'n gywir* • ymuno wrth adrodd/canu amrywiaeth o rigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof • ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed • dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth • ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir fel arfer, *e.e. Oes? Oes/Nac oes*	• gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen • ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir • dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol • ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, *e.e. Ydy? Ydy/Nac ydy*	• gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod • gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol
	Cydweithio a thrafod	• cyfrannu i sgyrsiau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi • cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud.	• cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad • rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg.	• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth • siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.

https://hwb.gov.wales/api/storage/494f1709-2e35-403b-81c5-29e02e897b5b/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-taenlen-llythrennedd-llafaredd-ar-draws-y-cwricwlwm-cwricwlwm-2022.pdf

Syniadau ar gyfer datblygu sgiliau llafaredd y dysgwyr yn y dosbarth?



Sbardun a strwythur



Tasg Gyfeiriol



Meddyliwch am weithgaredd sy'n datblygu sgiliau llafaredd yn y dosbarth.

padlet

Postiwch eich syniad ar Padlet cyn y ddarlith nesaf.

https://padlet.com/bethangriffiths/2z0wjm431q296rv6